| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **12 MAI, 2011** |
| **TEITL** | **CYNLLUN TAIR BLYNEDD Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r drafft terfynol o'r Cynllun Tair Blynedd i'w gymeradwyo** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cymeradwyo'r Cynllun Tair Blynedd** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

**CEFNDIR**

1. Ynghlwm i'r adroddiad hwn, mae copi o'r drafft terfynol o'r Cynllun Tair Blynedd ar gyfer 2011-14.

2. Wrth ei gyflwyno, mae'n werth nodi'r broses a ddilynwyd wrth ei lunio.

| | |
|---|---|
| Hydref 2009 | Dwyn ynghyd data a gwybodaeth am faterion sydd yn wynebu'r sir |
| Ionawr, 2010 | Gweithdy Cynllun Tair Blynedd ar cyd gydag aelodau arweiniol yn adnabod y materion sydd angen sylw yn y Cynllun Tair Blynedd ac ymhellach yn y strwythur rhaglenni |
| Chwefror, 2010 | Cyflwyniad i aelodau Bwrdd y Cyngor ar y cysyniad o Rheolaeth Rhaglen |
| Mawrth, 2010 | Adroddiad i'r Grwp Busnes (Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol) yn awgrymu dyraniad cynghorwyr arweiniol i Fyrddau Rhaglen unigol |
| Ebrill, 2010 | Sesiynau hyfforddi i aelodau Byrddau Rhaglen |
| Mai, 2010 | Sesiynau Ymgysylltu gyda grwpiau o'r cyhoedd ar y prif faterion |
| Ebrill – Mehefin, 2010 | Cyfarfodydd cyntaf y chwe Bwrdd Rhaglen |
| Mehefin, 2010 | Gweithdy Aelodau Cyntaf ar faterion yn ymwneud â'r Cynllun Tair Blynedd |
| Gorffennaf – Hydref, 2010 | Paratoi Glasbrintiau cychwynol y Rhaglenni er ystyriaeth gan y Tim Arweinyddiaeth |
| Tachwedd, 2010 | Ail Weithdy Aelodau ar y canlyniadau y disgwylir eu gwireddu yn y Cynllun Tair Blynedd newydd |

| | |
|---|---|
| Tachwedd, 2010 - Chwefror, 2011 | Gwaith datblygu pellach gan y Byrddau Rhaglen ac arweinyddion prosiectau posib ar y buddion i'w gwireddu fel rhan o'r rhaglenni unigol |
| Chwefror, 2011 | Sesiwn Gweithdy Aelodau ar gynnwys y Cynllun Tair Blynedd newydd |
| Mawrth 2011 | Trafodaethau yn y Grwp Arweinyddiaeth ar gynigion y Byrddau Rhaglen ac argymhellion i'w trafod yn y pwyllgorau craffu |
| Mawrth, 2011 | Trafodaeth yn y Grwp Busnes ar ddyrannu adnoddau ar draws prosiectau'r Byrddau Rhaglen |
| Mawrth –Ebrill, 2011 | Craffu Cynlluniau Rhaglen unigol gan y Pwyllgor Craffu thematig perthnasol a her o'r trosolwg a dyrannu adnoddau gan y Prif Bwyllgor Craffu |

3. Fel sydd yn amlwg o'r uchod, rydym wedi ceisio dilyn proses helaeth a chynhwysol gyda sylw penodol i geisio gwella capsiti'r Cyngor i ymrwymo i a gwireddu buddion go iawn i drigolion.

4. Yn allweddol, wrth i'r gwaith ar y Cynllun ddod i ben, bu hefyd craffu ar y cynlluniau rhaglen unigol gan y Pwyllgorau Craffu a hefyd ystyriaeth o'r goblygiadau adnoddau gan y Prif Bwyllgor Craffu. Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau manwl bron â'i gwblhau ac mae copi o'r drafft mwyaf diweddar o'r Cynllun ynghlwm. Dylwn nodi bod tebygrwydd y bydd yn rhaid gwneud rhai gwelliannau pellach cyn iddo gael ei gyhoeddi.

5. Ar 3 Mai, 2011, bu Bwrdd y Cyngor yn ystyried y gofynion adnoddau ynghlwm â'r ymrwymiadau yn y Cynllun a cymeradwyodd unrhyw ddyraniadau allan o'r adnoddau yr oedd y Cyngor wedi ei glustnodi ar gyfer y dasg. Yn wir, mae penderfyniadau'r Bwrdd yn golygu bod cyfran arwyddocaol o'r adnoddau hynny yn parhau heb ei ddyrannu. Gyda rhai prosiectau, mae trafodaethau ar eu hariannu yn parhau ac efallai y bydd angen dyrannu adnoddau pellach a bydd rheini yn cael eu hystyried a'u penderfynu yn ôl yr angen, pan fydd y trafodaethau hynny wedi eu cwblhau.

**ARGYMHELLIAD**

6. Gwahoddir Bwrdd y Cyngor i:-
   - gymeradwyo'r Cynllun Tair Blynedd
   - fy awdurdodi i gyflawni unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun cyn iddo gael ei gyhoeddi